

Y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

ADRODDIAD I'R CYNULLIAD 1999 i 2003

1. RHAGARWEINIAD

1.1 Yn ôl Rheol Sefydlog 9.9 mae'n ofynnol i'r holl bwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar y cynnydd a wnaethant yn cyflawni eu blaenraglenni gwaith. Mae'r adroddiad hwn yn grynodedb o'r cyfnod rhwng Mai 1999 ac Ebrill 2001, gyda mwy o fanylion am y cyfnod rhwng Mai 2002 a Mawrth 2003.

1.2. Ceir manylion o aelodaeth y Pwyllgor yn ystod y pedair blynedd yn atodiad 1.

1.3. Ers 1999 mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod yn ffurfiol 79 gwaith. Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd yn gyhoeddus.

Cylch Gorchwyl a Chyfrifoldebau'r Pwyllgor

1.4 Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae hyn yn cynnwys pob agwedd ar ofal iechyd; diogelwch bwyd; gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol; plant a phobl ifanc, a Phartneriaeth y Sector Gwirfoddol. Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8.

2. MIS MAI 1999 TAN FIS EBRILL 2002

2.1 Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad yn flynyddol ar y cynnydd a wnaeth yn cyflawni ei raglen waith, fel sy'n ofynnol gan Reol Sefydlog 9.9. Ar ddiwedd tymor cyntaf y Cynulliad mae'n briodol pwysleisio rhai o'r materion pwysicaf y mae'r Pwyllgor wedi rhoi sylw iddynt.

Comisiynydd Plant Cymru

2.2. Y darn gwaith pwysicaf a wnaeth y Pwyllgor oedd cyflwyno cynnig ar gyfer creu Comisiynydd Plant Annibynnol, gyda chefnogaeth y pedair blaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad. Ymgynghorodd y Pwyllgor yn eang wrth lunio ei gynigion ac edrychodd ar enghreifftiau mewn gwledydd eraill. Cwblhaodd y Pwyllgor ei waith ar y cyd â'r Pwyllgor Addysg cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar ym mis Mai 2000 a chyflwynwyd adroddiad i'r Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn y mis canlynol.

2.3. Ystyriwyd argymhellion y Pwyllgor wrth ddrafftio'r Ddeddf Safonau Gofal, ac roeddent yn sail i Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru. Sefydlwyd Pwyllgor ar wahân i roi cyngor ar y broses benodi ac ar 7 Rhagfyr 2000 penodwyd Peter Clark yn Gomisiynydd Plant cyntaf Cymru.

Ymestyn y Categoriâu o Bobl sydd â'r Hawl i gael Profion Llygaid am Ddim

2.4. Ar 1 Rhagfyr 1999, cytunodd yr Ysgrifennydd Cyllid i ddyrannu arian i'w gwneud yn bosibl i fwy o grwpiau gael yr hawl i brofion llygaid am ddim, i'w roi ar waith o 1 Hydref 2000. Roedd hyn yn amodol ar fod y Pwyllgor lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cabinet yn fodlon gyda'r manteision clinigol, yr awdurdod cyfreithiol a'r flaenoriaeth berthynol o fewn y gyllideb lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ar ôl 2000-01 byddai'n rhaid talu am gost reolaidd ymestyn profion llygaid am ddim ar ôl 2000-01 o gyllideb sylfaenol bresennol y GIG, ac felly ar draul gwasanaethau eraill

sy'n cael eu cyllido ar hyn o bryd. Cychwynnodd y Gweinidog ymarfer ymgynghori, ac ystyriwyd y canlyniadau gan y Pwyllgor ym mis Mawrth 2000. Cytunodd y Pwyllgor y dylid ymestyn profion llygaid am ddim i gynnwys pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl â nam ar eu clyw, pobl â golwg mewn un llygad a phobl mewn perygl o gael retinitis pigmentosa, a bod yr arian ar gael ar gyfer 2000-01.

2.5. Wedi hynny, cynghorwyd y Gweinidog gan arbenigwyr y byddai rhaglen benodol i ddod o hyd i glefyd y llygaid yn fwy buddiol i'r rhai sydd mewn perygl. Cytunodd y Pwyllgor ar hyn. Dyfeisiwyd rhaglen arall a oedd yn cynnwys archwiliad gan optometrydd am glefyd y llygaid fel rhan o becyn i wella iechyd gweledol. Byddai'r archwiliad hwn ar gael yn ôl y galw i'r grwpiau hynny mewn perygl arbennig, a byddai archwiliad tebyg ar gael i eraill ar ôl iddynt gael cyfeireb gan ymarferydd cyffredinol. Cytunwyd hefyd ar gyfanswm o £1.7m ar gyfer datblygu ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth a rhaglenni sgrinio ar gyfer clefyd y llygaid a mentrau eraill, megis:

- ◆ sgrinio am retinopathi diabetig
- ◆ datblygiadau o ran gofal llygaid sylfaenol, gan gynnwys gwella'r cyfeirebau i ofal eilaidd
- ◆ ymwybyddiaeth o ofal llygaid, yn enwedig ymysg lleiafrifoedd ethnig a grwpiau risg uchel eraill
- ◆ gwasanaeth cymhorthion nam ar y llygad
- ◆ ymchwilio i brofion a sgrinio am glawcoma a datblygu hynny
- ◆ mwy o ddarpariaeth ar gyfer llawdriniaeth ar gataractau.

2.6. Mae'r Pwyllgor wedi monitro cynnydd y mentrau hyn drwy adroddiad misol y Gweinidog a phapurau i'w nodi.

Adroddiad Ymchwiliad Phillips (BSE)

2.7. Roedd cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ymwneud â thair agwedd ar adroddiad Phillips:

- ◆ y mesurau sydd yn eu lle i ddiogelu'r gadwyn fwyd ddynol rhag effeithiau BSE;
- ◆ y trefniadau ar gyfer gofalu am ddiodefwrwr afiechyd amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob (vCJD); a
- ◆ Hynt yr epidemig vCJD a'r ffordd y darperir cyngor gwyddonol.

2.8. Ceisiodd y Pwyllgor gael tystiolaeth ysgrifenedig gan y Swyddfa Gartref, yr Adran Nawdd Cymdeithasol a Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol a chasglwyd tystiolaeth lafar gan deuluoedd diodefwrwr BSE a vCJD yng Nghymru, y Sefydliad BSE Dynol a nifer o sefydliadau perthnasol eraill. Roedd aelodau'r teuluoedd wedi sôn am eu profiadau gydag urddas, ac roedd hyn yn dystiolaeth ingol o'r angen am weithredu. Gwnaeth y Pwyllgor 21 o argymhellion, a thrafodwyd y rhain yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Mai 2001.

Adolygiad o'r Fformiwla ar Ddyrannu Adnoddau

2.9. Ym mis Chwefror 2000, cytunodd y Pwyllgor fod angen edrych ar y fformiwla ar gyfer dyrannu adnoddau'r GIG. Sefydlwyd Grŵp Llywio Cenedlaethol a phenodwyd yr Athro Peter Townsend i oruchwylio'r adolygiad. Roedd Aelodau o'r Pwyllgor ar y Grŵp Llywio. Adroddodd yr Athro Townsend yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2002. Argymhellodd yr adroddiad:

- ◆ y strategaeth ddeuol ar gyfer gwella iechyd a lleihau anghydraddoldeb o ran mynediad;

- ◆ casglu gwbodaeth ariannol ddibynadwy; a
- ◆ cyflwyno'r fformiwla ddyrannu newydd.

2.10. Ar y cyfan derbyniodd y Pwyllgor yr argymhellion, er bod rhai pryderon ynghylch amseriad y fformiwla newydd ac effaith ei chyflwyno. Cytunodd mwyafrif y Pwyllgor y dylid gweithredu'r fformiwla newydd cyn gynted â phosibl. Caiff ei chyflwyno'n raddol o 2003. Mae'r Gweinidog wedi adrodd yn rheolaidd ar y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd a mentrau eraill i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau drwy ei hadroddiad misol.

Pwysau Brys ac Amserau Aros mewn Ysbytai

2.11. Yn 2000 rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiadau Grŵp Datblygu'r Strategaeth Amseroedd Aros a'r Tasglu Pwysau Brys. Parhaodd i fonitro cynnydd rhoi argymhellion y ddau adroddiad ar waith drwy adroddiad misol y Gweinidog, ac ym mis Tachwedd 2002 cyflwynodd Paul Williams, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg, ei adroddiad '*A Question of Balance* - adolygiad o gapasiti'r GIG yng Nghymru, ar gyfer trafodaeth.

Grŵp Gorchwyl a Gorffen Arferion Rhagnodi

Ym mis Tachwedd 2001, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Cymeradwyodd argymhelliad y Grŵp i sefydlu Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan, yn amodol ar gynnwys cynrychiolydd o'r diwydiant fferyllol yn ei aelodaeth, a bod ei gyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd lle y bo'n bosibl.

3. MIS MAI 2002 TAN FIS MAWRTH 2003

Blaenoriaethau

3.1. Nododd y Pwyllgor ei flaenoriaethau ar gyfer 2002-03 yn y flaenraglen waith strategol yn **Atodiad 2**. Dyma'r prif flaenoriaethau :

- ◆ archwilio'n fanwl a rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyflwyno'r cynigion ar gyfer ailstrwythuro'r GIG a datblygu'r Strategaeth Gofal Sylfaenol. Roedd hyn i gynnwys ystyriaeth o:
 - ◇ is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o Ddeddf Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd;
 - ◇ y Mesur GIG (Cymru) drafft; a
 - ◇ polisiâu newydd nad oes angen deddfwriaeth newydd arnynt.
- ◆ Cwblhau'r Adolygiad o Wasanaethau i Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig.

3.2. Bydd y Pwyllgor hefyd yn parhau i archwilio'r Gweinidog yn fanwl drwy'r adroddiadau misol.

3.3. Cyfarfu'r Pwyllgor 21 gwaith rhwng Ebrill 2002 a Mawrth 2003.

Cynnydd

3.4. Mae'r Pwyllgor wedi cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd ganddo.

Datblygu polisi (Rheol Sefydlog 9.7)

Adolygu Gwasanaethau i Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig (Rheol Sefydlog 9.7(i))

3.5. Cychwynnodd y Pwyllgor ei adolygiad ym mis Mehefin 2001. Gan gofio bod y gwaith hwn yn gysylltiedig â gwaith y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, gwahoddwyd y ddau i enwebu cynrychiolydd i fod ynghlwm wrth y gwaith. Cynog Dafis a Gwenda Thomas gynrychiolodd buddiannau'r Pwyllgorau hynny.

3.6. Byddai wedi bod yn amhosibl gwneud cyfiawnder â phwnc mor eang yn yr amser ar gael. Felly, yn dilyn ymgynghori anffurfiol â gweithwyr proffesiynol a'r sector gwirfoddol yn yr haf, cyfyngodd y Pwyllgor ar sgôp yr adolygiad i ganolbwyntio ar wyth agwedd benodol ar y gwasanaeth. Ym mis Hydref y flwyddyn honno cyhoeddwyd y cylch gorchwyl.

3.7. Yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus eang, dewisiwyd 18 o sefydliadau i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. Roedd llawer o'r dystiolaeth yn anecdotaidd ac yn ymwneud â phrofiad ac amgyffred pobl o'r gwasanaethau a gawsant. Roedd ystyriaeth y Pwyllgor o'r dystiolaeth yn canolbwyntio ar y meysydd lle cafwyd pryder cyffredin neu safbwyntiau a oedd yn gwrthdaro.

3.8. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar 12 Rhagfyr 2002, gyda lansiad ffurfiol yn y Ganolfan Gweithgareddau Anghenion Arbennig ym Margam. Gwnaeth y Pwyllgor 27 argymhelliad yn nodi ymhle roedd angen gweithredu. Roedd rhai ohonynt yn fwy penodol na'r lleill. Daethpwyd i'r casgliad cyffredinol fod rhai arferion da yn amlwg

ledled Cymru ond bod angen gwneud mwy i sicrhau bod teuluoedd yn cael y gwasanaethau gorau o'r diagnosis cyntaf drwy drosglwyddo'n ddidrafferth i wasanaethau oedolion. Dim ond trwy rannu arferion da dilys a gweithio cydlynus rhwng y gwahanol asiantaethau a'r teuluoedd a'r gofalwyr y mae modd gwneud hyn.

3.9. Ochr yn ochr â gwaith y Pwyllgor, mae Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru wedi comisiynu arolygiad o lenyddiaeth gan Adran Iechyd Plant, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, sy'n cydweithio â'r Ganolfan Ymchwil ar gyfer Astudiaethau Teulu ym Mhrifysgol Caerdydd (cyd-fenter rhwng Prifysgol Caerdydd a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru). Prif nod y gwaith hwn yw darparu gwybodaeth ar gyfer adolygiad y Pwyllgor, ond bydd hefyd yn werthfawr i bobl broffesiynol a sefydliadau eraill sydd â diddordeb y tu hwnt i anghenion uniongyrchol yr adolygiad.

3.10. Trafodwyd adroddiad y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Chwefror 2003. Derbyniodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr holl argymhellion mewn egwyddor, a chyhoeddwyd ei hymateb a chynllun gweithredu ar ddiwrnod y ddatl.

Hysbysu Gofal Iechyd a Thelefeddygaeth

3.11. Ym mis Rhagfyr derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar y cynigion strategaeth gwybodaeth drafft a oedd wedi'u cynnwys yn y ddogfen *Hysbysu Gofal Iechyd*. Rhoddodd y strategaeth sylw i'r angen am wybodaeth amserol, rydd i gefnogi iechyd a gofal iechyd, gyda chofnod electronig unigol o'r claf y gellid cael gafael arno yn unrhyw le ar unrhyw adeg gan weithwyr proffesiynol priodol a'r claf.

Cymorth ac Eiriolaeth i Gleifion

3.12. Bu'r Pwyllgor yn trafod cymorth ac eiriolaeth i gleifion ym mis Gorffennaf 2001. Cefnogodd raglen o gynlluniau Pathfinder i brofi gwahanol fodelau o gymorth ac eiriolaeth i gleifion gydag Ymddiriedolaethau GIG, Grwpiau Iechyd Lleol a Chynghorau Iechyd Cymunedol ledled Cymru. Ar 5 Chwefror derbyniodd adroddiad ar werthuso'r cynlluniau Pathfinder hyn. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r prif argymhellion ar gyfer datblygu eiriolaeth i gleifion ar draws Cymru a sefydlu tasglu i adolygu'r trefniadau presennol ychwanegol ar gyfer eiriolaeth i gleifion ac a ddylid ehangu cynlluniau o'r fath yn genedlaethol.

Craffu a Monitro (Rheol Sefydlog 9.7(ii) a (iii))

3.13. Mae'r Pwyllgor wedi archwilio'r Gweinidog yn fanwl o ran perfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy'r adroddiad misol y mae'n ei ddarparu. Mae wedi mynd ar ôl hynt cyflawni argymhellion adroddiad y tribiwnlys ymchwiliad i gam-drin plant mewn gofal yng Ngogledd Cymru (Adroddiad Waterhouse); ac adolygu'r camau diogelwch ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael triniaeth a gofal gan y GIG yng Nghymru (Adroddiad Carlile).

3.14. Parhaodd y Pwyllgor i fonitro'r camau i gwtogi amseroedd aros ysbytai a'r pwysau ar y GIG, gan gynnwys yr oedi wrth drosglwyddo gofal a'r cyfraniad a wnaed gan Arloesi mewn Gofal, cynigion ar gyfer ehangu addysg feddygol ac ymdrin â phroblemau recriwtio a chadw yng Nghymru.

3.15. Cafodd y Pwyllgor adroddiadau hefyd gan y Prif Swyddog Meddygol, Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Chomisiynydd Plant Cymru. Ym mis Gorffennaf cyfarfu'r Pwyllgor â'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a dau aelod o'r Cyngor Gofal Cymru newydd a thrafodwyd gwaith y cyngor.

Deddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))

Ddeddf Diwgio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd

3.16. Nid oedd yn bosibl i waith ffurfiol o dan Reol Sefydlog 22 ddechrau hyd nes i'r Mesur gael cydsyniad brenhinol ym mis Gorffennaf. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig i'r gwaith cychwynol ar y Gorchmynion ddechrau yn ystod yr haf fel y gellid bwrw ymlaen â'r Gorchmynion drafft ar y cyfle cyntaf yn yr hydref. Lluniwyd protocol ac ymgynghorodd y Gweinidog â'r Pwyllgor ar amodau'r Gorchmynion drafft arfaethedig yn ystod tymor yr haf, fel y gellid ymgymryd â'r ymgynghoriad o dan Reol Sefydlog 22.1 a Rheol Sefydlog 22.2 yn ystod toriad yr haf.

3.17. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i dri Gorchmynion drafft arfaethedig yn cynnwys swyddogaethau'r Byrddau Iechyd Lleol a'u haelodaeth a'u cyfansoddiad, a'r angen am Strategaethau Iechyd a Lles.

3.18. Cafwyd dadl ar nifer o welliannau arfaethedig a derbyniwyd pump ohonynt.

Mesur Iechyd (Cymru)

3.19. Yn dilyn cyhoeddi Mesur drafft GIG (Cymru) ar 17 Mai cafodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y cyfle i fod y pwyllgor pwnc cyntaf yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i graffu ar Fesur drafft a fyddai'n berthnasol i Gymru yn unig.

3.20. Bu'r Pwyllgor yn gweithio gyda Phwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Faterion Cymreig yn craffu ar y mesur drafft. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Dethol, Martyn Jones AS, a thri aelod arall o'r Pwyllgor Dethol, Julie Morgan AS, Adam Price AS a Roger Williams AS yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 29 Mai. Gan ddefnyddio'r protocol a gytunwyd gan y Pwyllgor, cyflwynodd Aelodau o Bwyllgor y Cynulliad 17 o welliannau i'w trafod yn y cyfarfod hwnnw. Derbyniwyd pump ohonynt gan y Gweinidog. Yn dilyn y cyfarfod anfonwyd adroddiad ffurfiol o argymhellion y Pwyllgor at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.21. Ar 20 Tachwedd, roedd Don Touhig, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, yn bresennol yn y Pwyllgor i roi'r newyddion diweddaraf am hynt y Mesur. Roedd y broses graffu cyn deddfu wedi gweithio'n dda ac roedd y dull o weithredu wedi'i gymeradwyo gan Brif Chwip y Llywodraeth yn Nhy'r Arglwyddi, Arweinydd Tŷ'r Arglwyddi ac Arweinydd Tŷ'r Cyffredin fel model ar gyfer Mesurau'r dyfodol.

3.22. Mae'r Mesur gerbron Tŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd.

Mesur Iechyd Meddwl Drafft

3.23. Ar 25 Mehefin 2002 cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod Mesur Iechyd Meddwl drafft a phapur ymgynghori perthnasol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi.

3.24. Iechyd Meddwl oedd un o flaenoriaethau strategol y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Pan gyfarfu'r Pwyllgor ar 27 Mehefin, mynegodd yr aelodau bryder ynghylch darpariaethau'r Mesur a'u heffaith ar Gymru. Roedd pryder arbennig ynghylch materion hawliau dynol a'r gallu i ddarparu'r camau diogelwch megis gwasanaethau adfocatiaeth a thribiwnlysoedd. Cytunodd y Pwyllgor ei fod yn

bwysig y dylai'r Cynulliad gael y cyfle i edrych ar y Mesur drafft yn ei gyfarfod llawn ac y dylai'r Pwyllgor ei archwilio'n fanwl.

3.25. Roedd yr ymgynghoriad ar y Mesur drafft a'r cynigion atodol yn parhau tan 16 Medi, ac o ganlyniad i ystyriaeth y Pwyllgor o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth nid oedd modd cael digon o amser i ystyried y Mesur drafft yn y cyfarfodydd cyn toriad yr haf. Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol y dylid ceisio sicrhau cymeradwyaeth yn unol â Rheol Sefydlog 8.25A i gynnal cyfarfod yn ystod wythnos olaf yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Mesur drafft.

3.26. Cynhaliwyd y cyfarfod ar 11 Medi, a gwahoddwyd prif sefydliadau yng Nghymru i roi eu barn ar ddarpariaethau'r Mesur a sut y byddent yn effeithio ar bobl a gwasanaethau yng Nghymru. Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd y Cadeirydd yn ffurfiol at y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Llywodraeth y DU yn gofyn am ystyriaeth o drafodion y Pwyllgor.

Is-ddeddfwriaeth

3.27. Yn ogystal â'r Mesurau a'r is-ddeddfwriaeth, ystyriodd y Pwyllgor Reoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 2003 a Rheoliadau Cymorth Cenedlaethol (Symiau at Anghenion Personol) 2003.

Cyllideb (Rheol Sefydlog 9.(ii))

3.28. Ystyriodd y Pwyllgor gyllideb arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2002-2003 a rhoddodd sylwadau arni. Atodir llythyr y Cadeirydd yn rhoi crynodeb o gasgliadau'r Pwyllgor yn **Atodiad 3**.

Penodiadau (Rheol Sefydlog 9.8 (iv))

3.29. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae enwebeion y Pwyllgor wedi bod ar y paneli cyfweld ar gyfer swyddi Cadeiryddion y Byrddau Iechyd Lleol. Eisteddodd David Melding ar 12 panel a Kirsty Williams ar 11 panel.

Materion Traws-bynciol

3.30. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gynnwys pwyllgorau eraill yn ei waith. Cynhaliwyd trafodaethau ar y canllawiau arfaethedig i awdurdodau lleol ar godi tâl am ofal yn y cartref ar y cyd â'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Roedd Aelodau'r Pwyllgor hwnnw hefyd yn bresennol yn y cyfarfod pan gafodd y Gweinidog ei archwilio'n fanwl ar y camau i weithredu'r argymhellion yn adroddiad Waterhouse 'Ar Goll mewn Gofal'. Gwahoddwyd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i enwebu aelod i gynrychioli buddiannau'r Pwyllgorau hynny yn yr adolygiad o wasanaethau ar gyfer plant ag anghenion iechyd arbennig.

DYLETSWYDDAU STATUDOL Y CYNULLIAD

4.1. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhoi nifer o ddyletswyddau ar y Cynulliad Cenedlaethol ac mae'r Pwyllgor wedi ystyried hyn.

Adran 48 Cyfle Cyfartal

Adran 121 Datblygu Cynaliadwy

4.2. Mae dwy thema allweddol yr adrannau hyn o'r Ddeddf yn ganolog i fwrriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella iechyd pawb yng Nghymru a'u mynediad i wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf mae'r Pwyllgor wedi archwilio'n fanwl gynigion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer diwygio'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru a arweiniodd at ddogfen y Cynulliad *Gwella Iechyd yng Nghymru - Cynllun i'r GIG*. Mae'r cynllun yn cynnig degawd o newid a datblygiad gyda'r nod o wella iechyd a lles a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae'n cynnwys y nod o wella'r cydweithio rhwng y GIG, gwasanaethau gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i graffu ar y gwaith o roi'r cynigion ar waith drwy ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, fel y manylir uchod

4.3. Ym mis Tachwedd 2002 craffodd y Pwyllgor ar y ddogfen ymgynghori "*Lles yng Nghymru*". Ceisiodd y papur hwnnw ddatblygu ymhellach y cynigion ar gyfer gwella iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ymhellach drwy ymagwedd integredig tuag at bolisi a rhaglenni.

4.4. Yn ddiethriad, mae adolygiadau'r Pwyllgor wedi rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â chyfle cyfartal, megis sefydlu swydd Comisiynydd Plant, gwasanaethau i blant ag anghenion iechyd arbennig, adolygu'r categori o bobl sydd wedi'u heithrio rhag talu am brofion llygaid a goblygiadau iechyd adroddiad Phillips ar BSE.

Adran 114 - Y Sector Gwirfoddol

4.5. Mae'r Pwyllgor wedi cynnwys llawer o'r sector gwirfoddol yn ei waith, yn arbennig wrth ymgynghori ynghylch adolygiadau polisi a datblygiad, ac mae'n cydnabod y rôl sydd gan y sector i'w chwarae i ddarparu gwasanaethau gofal a chefnogaeth i bobl sy'n agored i niwed. Mae'r Gweinidog yn cadeirio Partneriaeth y Sector Gwirfoddol ac mae wedi cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor ar y cyfarfodydd.

Atodiad 1

Aelodau'r Pwyllgor

	O	Tan
Kirsty Williams (Cadeirydd)	25 Mai 1999	Y Presennol
Nicholas Bourne	23 Mehefin 1999	14 Medi 1999
Geraint Davies	25 Mai 1999 9 Tachwedd 2000	10 Hydref 2000 Y Presennol
Jocelyn Davies	10 Hydref 2002 21 Mawrth 2002	9 Tachwedd 2000 Y Presennol
Dr Brian Gibbons	25 Mai 1999 9 Tachwedd 2000	29 Mawrth 2000 Y Presennol
Brian Hancock	9 Tachwedd 2000	21 Mawrth 2002
Jane Hutt (Gweinidog)	25 Mai 1999	Y Presennol
Pauline Jarman	10 Hydref 2000	9 Tachwedd 2000
Helen Mary Jones	25 Mai 1999	10 Hydref 2000
Ann Jones	29 Mawrth 2000	Y Presennol
Dr Dai Lloyd	25 Mai 1999	Y Presennol
David Melding	25 Mai 1999	Y Presennol
Lynne Neagle	25 Mai 1999	Y Presennol
Alun Pugh	29 Mawrth 2000	9 Tachwedd 2000
Rod Richards	3 Mai 2001	10 Medi 2002
Peter Rogers	14 Medi 1999	29 Mawrth 2000
Gwenda Thomas	25 Mai 1999	29 Mawrth 2000

PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

BLAENRAGLEN WAITH FANWL

RHAN 1 - RHAGLEN STRATEGOL

Mai 2002 tan Fai 2003

Dyletswyddau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn un o saith pwyllgor pwnc. Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol:

“9.7. Bydd pob pwyllgor pwnc

- i. yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;
- ii. yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu: a
- iii. yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

9.8. O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd:

- i. yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 22;
- ii. yn cynnig cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;
- iii. yn cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 21 (cwynion);
- iv. yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20; a
- v. yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

O dan Reol Sefydlog 9.9 mae'n rhaid i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglenni gwaith treigl a fydd yn cynnwys cyfnodau o 12 mis o leiaf.

I gael manylion am aelodau'r Pwyllgor cliciwch yma[*insert hyperlink*]

Nodau ac Amcanion y Pwyllgor

Prif amcan blaenraglen waith y Pwyllgor yw integreiddio'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhaglen yn ymdrin â phrif faterion mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a phenderfynyddion iechyd gwael. Wrth adolygu a datblygu polisi bydd y Pwyllgor yn gwneud yn siwr y bydd yn gwneud argymhellion a fydd yn arwain at wasanaethau gwerth am arian o ansawdd uchel. Bydd hefyd am sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu rheoleiddio a'u harchwilio'n gywir, yn enwedig gwasanaethau i bobl ddiameddiffyn.

Blaenoriaethau'r Pwyllgor

Ar gyfer cyfnod y blaenraglen waith bydd ffocws strategol y Pwyllgor ar y materion canlynol a fydd, ynghyd â'i gyfrifoldebau o dan Reol Sefydlog 9.7 a 9.8, yn flaenoriaethau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor sy'n:

1. Rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyflwyno'r cynigion ar gyfer ailstrwythuro'r GIG a datblygu'r Strategaeth Gofal Sylfaenol. Bydd hyn yn golygu gwneud archwiliad manwl o:
 - is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o Fesur Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd;
 - y Mesur GIG (Cymru) drafft; a
 - polisiau newydd nad oes angen deddfwriaeth newydd arnynt.
2. Cwblhau'r Adolygiad o Wasanaethau i Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig a monitro'r ymateb i'w argymhellion.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn rhoi blaenoriaeth i archwilio'r Gweinidog yn fanwl drwy'r adroddiadau misol.

Y Cynlluniau Statudol

Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried cynlluniau statudol y Cynulliad Cenedlaethol o ran cysylltiadau gyda'r awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, a'r cynllun datblygu cynaliadwy.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar gyfarfodydd y Gweinidog gyda'r Sector Gwirfoddol o leiaf unwaith y flwyddyn yn unol ag adran 3.7 o'r Cynllun Sector Gwirfoddol.

Eitemau Eraill

Os bydd gan y Pwyllgor amser yn ei raglen gall hefyd edrych ar rai neu'r cyfan o'r materion canlynol rhwng Mai 2002 ac Ebrill 2003:

- adolygiad polisi o'r cysylltiadau rhwng tai a iechyd.
- cynigion ar gyfer contract meddyg teulu newydd;
- Cyngor Gofal Cymru;
- Siarter Iechyd a Gofal Cymdeithasol ;
- y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn;
- gofal cartref - canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch codi tâl;
- fflworideiddio dŵr;
- cynllunio'r gweithlu ac astudiaeth o ddiwylliannau ysbytai;

- y cynnydd a wnaed i leihau amseroedd aros ysbytai a'r pwysau ar y GIG, gan gynnwys oedi wrth drosglwyddo gofal;
- Rhaglen Gyfalaf y GIG;
- adroddiad Kennedy ar y Bristol Royal Infirmary
- Yr agweddau ar iechyd yn adroddiad ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i safle tirlenwi Nantygwyddon.
- Goblygiadau adroddiad yr ymchwiliad i farwolaeth Victoria Climbié

Materion Traws-bynciol

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y cysylltiad rhwng ei waith a gwaith pwyllgorau eraill. Ymysg y materion a fydd yn cael sylw yn ystod y 12 mis nesaf, sy'n cysylltu â phwyllgorau eraill, bydd:

- Adolygiad o'r Gwasanaethau ar gyfer plant ag Anghenion Iechyd Arbennig (*Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a Phwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes*);
- Adolygiad o lechyd a Thai (*Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai*); ac
- Yr agweddau ar iechyd yn yr ymchwiliad i safle tirlenwi Nantygwyddon (*Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth*).

Blaenoriaethau Cyllidebol 2002-2003

Yn ystod ei drafodaethau ar y blaenoriaethau cyllidebol ar gyfer 2002-2003, nododd y Pwyllgor nifer o flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf ac ar gyfer y blynyddoedd wedyn, a bydd yn monitro sut yr eir ati i'w cyflawni. Fe'u nodwyd fel a ganlyn yn y llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf 2001 oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor at yr Ysgrifennydd Cynulliad:

"Cefnogodd y Pwyllgor y blaenoriaethau a nodwyd yn adran 6 eich papur*. Roedd yr aelodau'n cytuno bod gwasanaethau'r galon, canser a iechyd meddwl yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig. Roedd hefyd yn bwysig parhau i gynyddu'r capasiti a chynnal y Gronfa Anhydraddoldebau Iechyd.

Barn y Pwyllgor oedd bod angen ymdrin â'r broses o ymestyn addysg feddygol ac addysg arall sy'n ymwneud â'r proffesiwn iechyd, ynghyd â chymorth ac anogaeth i fyfyrwyr, fel blaenoriaeth.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylid parhau i gefnogi'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd datblygu'r ddarpariaeth o frecwest mewn ysgolion a siopau gwerthu ffrwythau hefyd yn bwysig.

Mewn trafodaeth a ddilynodd ar Bartneriaethau Cyhoeddus / Preifat a'r Fenter Cyllid Preifat cytunodd y Pwyllgor fod cael digon o gyllid ar gyfer cynnal a datblygu cyfalaf yn hanfodol.

Gofynnodd y Pwyllgor y dylid ystyried ariannu'r Gwasanaeth Ambiwlans yn ganolog."

*Papur HSS-11-01(p3), 4 Gorffennaf 2001 - dyfyniad o'r Atodiad

Detholiad o Bapur HSS-11-01(p.3), a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 4 Gorffennaf 2001

6. Blaenoriaethau ar gyfer 2002-03

6.1 Bydd y Cylch Cynllunio Cyllidebol a Chorfforaethol yn cynnwys asesiad o'r gwariant a'r pwysau anochel o fewn cyllidebau sylfaenol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd hefyd yn archwilio'r sgôp ar gyfer hyblygrwydd o fewn cyllidebau sylfaenol. O fewn yr adnoddau sydd ar gael, bydd yn hanfodol blaenoriaethu'r gofynion o ran cyllid.

6.2 Un o brif flaenoriaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fydd cynnal y ddarpariaeth sylfaenol bresennol. Byddai hyn yn cynnal y cynnydd calonogol a wnaed tuag at ymrwymïadau Cytundeb Partneriaeth a *Gwella Iechyd yng Nghymru*. Byddai cynnal y gyllideb sylfaenol hefyd yn darparu rhagdybiaethau cynllunio wedi'u cyhoeddi ar gyfer y GIG. Mae'r rhain yn cynnwys cynnydd o 7 y cant bob blwyddyn ar ddyraniad dewisol yr awdurdod iechyd; 9.1 y cant bob blwyddyn ar ragnodi cyffuriau gan ymarferwyr cyffredinol a 5.7 y cant ar gyfer gwasanaethau iechyd teulu. Hwn yw'r fframwaith cynllunio ariannol y mae'r GIG yn gweithredu oddi mewn iddo.

6.3 Yn ogystal â chynnal y cyllidebau sylfaenol, un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer iechyd ar hyn o bryd fydd ceisio cynnal ac ychwanegu at y pecyn buddsoddi newydd gwerth £20 miliwn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth. Mae'r pecyn yn cynnwys y gwariant ar y rhan fwyaf o ymrwymïadau'r Bartneriaeth mewn rhai meysydd allweddol eleni. Mae buddsoddi newydd wedi cynnwys:

- gofal sylfaenol - i gyflawni o ran recriwtio a chadw ymarferwyr cyffredinol a gwella adeiladau ymarferwyr a deintyddion;
- capasiti'r GIG - i gyflawni ar fater rhestrau aros uchel, gwasanaethau'r galon a chanser ac i ddatblygu gwasanaethau i safonau'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol;
- Nyrsys - i gynyddu'r pecynnau recriwtio a chadw;
- *Gwella Iechyd yng Nghymru* - i gyflawni o ran cael mwy o hyfforddiant ar gyfer nyrsys, rhwydweithiau clinigol a gwasanaethau orthopedig.
- *Anghydraddoldebau Iechyd* - i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn ein cymunedau tlotaf yng Nghymru.

Mae angen cael mwy o gyllid a'i gynnal er mwyn gweld cynnydd bob blwyddyn.

6.4 Ochr yn ochr ag ystyried unrhyw bwysau newydd o ran diffyg cyllid a all ymddangos o asesu cyllidebau sylfaenol, byddwn yn adolygu'r sgôp ar gyfer cael mwy o fuddsoddi os ydym i weld cynnydd llawn. Buddsoddyd cyllid ychwanegol yn:

- Strategaeth Adnoddau Dynol y GIG;
- Strategaeth Amseroedd Aros;
- Atebion arloesol i oedi wrth ryddhau cleifion;
- Pwysau'r Gaeaf;
- Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg; a

- Gwelliannau i gyfleusterau ac offer.

Bydd angen mwy o gyllid er mwyn gwneud cynnydd pellach yn y meysydd hyn. Bydd angen cyllid ychwanegol hefyd er mwyn gweld cynnydd o ran:

- Ymestyn addysg glinigol yn y Gogledd a'r De. a
- Pwysleisiodd datganiad y Gweinidog Cyllid ar 28 Mehefin y cynnydd o ran cyllido'r Cytundeb Partneriaeth. Yr unig ymrwymiad sydd yn dal heb ei gyflawni yw brechwast/siopau ffrwythau mewn ysgolion - *ymrwymiad ym mhennod Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cytundeb Partneriaeth*.

6.5 Mae cyfalaf yn hanfodol os ydym i foderneiddio amgylchedd y practisau i weithwyr iechyd proffesiynol - offer a systemau gwybodaeth yn ogystal ag adeiladau. Mae hyn yn dod yn fater o bwys wrth recriwtio a chadw staff clinigol mewn nifer o feysydd meddygol arbenigol, yn ogystal â dymuno rhoi manteision triniaeth ddiogel ac effeithiol i bobl Cymru.

6.6 Mae cynyddu'r Gronfa Anghysonderau Iechyd yn flaenoriaeth hefyd ar gyfer buddsoddi pellach i sicrhau bod iechyd yn gwneud cyfraniad priodol i flaenoriaeth *gwellcymru.com* i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol, ac i chwarae ei ran i roi argymhellion adolygiad Townsend o ddyraniad adnoddau ar waith.

6.7 O ran gwasanaethau cymdeithasol mae holl gyllidebau plant yn rhai sylfaenol sy'n codi, ac eithrio cyllideb y Comisiynydd Plant. Bydd addasu'r gyllideb honno yn dibynnu ar gynigion i'w derbyn gan y Comisiynydd ym mis Gorffennaf. Ond mae'r symiau dan sylw yn anhebygol o fod yn sylweddol.

6.8 Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried a ddylid ychwanegu at y gwariant a gytunwyd ar y Strategaeth Gofal Plant ymhellach i adlewyrchu'r argymhellion a all ddod i'r amlwg o adroddiad y Tasglu Strategaeth Gofal Plant yn yr Hydref.

6.9 Bydd angen i ni adolygu darpariaeth sylfaenol y gyllideb ar gyfer Gofal yr Henoed a Gofal Hirdymor pan fydd data gwell ar gael. Bydd hyn yn cynnwys yr angen i sicrhau bod digon o gyllid ar gael ar gyfer gofal nyrsio am ddim ac i barhau gyda'r Cynllun Gofal Cartref am Ddim am 6 wythnos.

6.10 Roedd y gyllideb sylfaenol bresennol ar gyfer Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru yn seiliedig ar yr amcangyfrif gorau a wnaed tra'r oedd y Mesur Safonau Gofal yn mynd drwy'r Senedd. Mae costau manwl yn cael eu paratoi ar hyn o bryd. Mae'n debyg y bydd angen symiau ychwanegol er mwyn sicrhau bod y staff sy'n trosglwyddo i'r Cynulliad, yn ogystal â'r arolygwyr sydd newydd gael eu recriwtio, yn cael eu hyfforddi ar gyfer y dystysgrif arolygu newydd sy'n cael ei chydabod yn genedlaethol; ac i ymgymryd â'r gwaith ychwanegol yn ystod y blynyddoedd cynnar o ailgofrestru'r holl leoliadau sydd wedi'u cofrestru gydag awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd ar hyn o bryd.

6.11 Mewn perthynas â Chyngor Gofal Cymru, bydd argymhelliad i dalu aelodau yn gwneud ein hanghenion yn fwy. Hefyd bu'n angenrheidiol gwneud gwaith ar recriwtio a chadw'r gweithlu gofal cymdeithasol. Arweiniodd hyn at yr angen i roi strategaeth hirdymor ar waith a fydd yn mynd i'r afael â'r anawsterau a nodwyd.

6.12 Bydd angen ailedrych ar lefel y gefnogaeth a fwriadwyd ar gyfer y sector gwirfoddol os ydym i gyflawni'r ymrwymadau a wnaed i helpu'r sector greu'r capasiti sydd ei angen arno i gyflawni ein hamcanion a'n disgwyliadau. Mae'r cyllidebau

wedi'u clustnodi'n llwyr ar gyfer y flwyddyn nesaf, o ganlyniad i'r symudiad i gronfeydd cyllido bob tair blynedd. Bydd angen penderfynu a ellir caniatáu bwrw ymlaen â rhai o'r mesurau mwyaf manteisiol i helpu'r sector gwirfoddol.

Atodiad 3

Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Health and Social Services Committee

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our Ref HSS- 18-02

Jane Hutt AC
Y Gweinidog dros Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol

25 Hydref 2002

CYNIGION CYLLIDEB AR GYFER 2003-2004

Diolch am gyflwyno eich cynigion cyllideb ar gyfer 2003-2004 mewn modd cynhwysfawr yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 23 Hydref.

Nododd y Pwyllgor y cywiriadau a wnaethoch ar lafar i'r papur (HSS-18-02(p2)) yn ymwneud â Thribiwnlysoedd a Phwyllgorau Cynghori (paragraff 19) a'r Asiantaeth Safonau Bwyd (paragraff 28)/ Nodwyd y newidiadau yn y cofnodion.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol ac edrychwn ymlaen at y gwelliannau i iechyd a gofal cymdeithasol yn sgil hynny. Mae'r Pwyllgor yn falch fod eich cyllideb yn cydnabod ei flaenoriaethau a bydd yn monitro cynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth eu cyflawni. Bydd y Pwyllgor yn rhoi sylw arbennig i gyllid a pherfformiad yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu cysylltiad Derek Wanless sy'n arwain yr adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru a byddwn yn edrych ymlaen â diddordeb at ei ganfyddiadau.

Hoffwn hefyd ddwyn eich sylw at safbwyntiau'r grŵp Ceidwadol, sef y dylai'r gyllideb hefyd ddarparu ar gyfer unrhyw gyllid sydd ei angen yn sgil unrhyw newidiadau i Reoliadau Cymorth Gwladol.

Kirsty Williams AC
Cadeirydd

Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

ARGYMHELLION Y PWYLLGOR YNGHYLCH MATERION Y GALLAI'R PWYLLGOR SY'N EI OLYNU GYNNWYS YN EI FLAENRAGLEN WAITH

Y Cefndir

1. O dan Reol Sefydlog 9.9, mae'n ofynnol i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglen dreigl o waith am gyfnodau o 12 mis fan lleiaf. Dylai'r rhaglen nodi pynciau neu faterion sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor ac sydd i'w trafod yn fanwl, gan gynnwys materion brys a allai godi o bryd i'w gilydd.
2. Mae'n arfer bellach i'r pwyllgorau pwnc gyflwyno'u blaenraglenni gwaith mewn dwy ran. Y fframwaith strategol yw'r rhan gyntaf, sy'n disgrifio nodau'r pwyllgor ar gyfer y deuddeg mis sydd i ddod. Caiff y fframwaith hwn ei ategu gan raglen waith fanwl ar gyfer y tri neu bedwar mis sydd i ddod.
3. Yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth 2003 cytunodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y dylid cymeradwyo'r eitemau a ganlyn i'r pwyllgor sy'n ei olynu fel rhai y gallai ystyried eu cynnwys yn ei flaenraglen waith.

Y Fframwaith Strategol

4. Cafodd y broses o ailstrwythuro'r GIG yng Nghymru ei rhoi ar waith o 1 Ebrill ymlaen a dylai'r gwaith o gadw golwg ar y broses hon a monitro'i heffeithlonrwydd fod yn gonglfaen i'r Pwyllgor newydd o ran datblygu'i raglen. Mae yna faterion cysylltiedig megis yr adolygiad y mae Derek Wanless wrthi'n ei gynnal. Mae Mr Wanless i fod i adrodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddiwedd y gwanwyn ynghylch sut y gellir defnyddio'r adnoddau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn diwygio a gwella perfformiad y gwasanaethau. Mater strategol arall perthynol yw'r mesurau i leihau'r amserau aros mewn ysbytai a phwysau perthynol. Mae'r berthynas sydd rhwng y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'r cydgyngllunio a'r cydweithio sydd rhwng yr asiantaethau yn allweddol i'r broses o ddarparu gwasanaethau effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Argymhellir y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar y materion strategol lefel uchel hyn yn ystod ei gyfarfodydd cyntaf, er y bydd angen neilltuo amser i drafod eitemau eraill megis ystyried cynigion y gyllideb ac adroddiad blynyddol y Gweinidog am ei gyfarfod/chyfarfod â'r sector gwirfoddol, yn unol â pharagraff 3.7 o Gynllun Partneriaeth y Sector Gwirfoddol.

Adolygiad Polisi

5. Dylai'r Pwyllgor ystyried cynnal Adolygiad Polisi. Yn ystod yr haf, efallai yr hoffai'r aelodau nodi pwnc a chytuno ar y cylch gorchwyl, er mwyn gallu dechrau ymgynghori yn ystod gwyliau'r haf. Ymysg y pynciau y gallai'r Pwyllgor eu hystyried mae manteision fflworeiddio dwr o ran iechyd, neu'r effeithiau posibl a gaiff plannu cnydau GM yng Nghymru yn y dyfodol ar iechyd. Mae'r Pwyllgor wedi rhoi'r cyntaf ar ei flaenraglen waith fel eitem bosibl i'w hystyried yn fanwl. Mae mudiad Cymru'n Rhydd o gnydau GM wedi gofyn i'r Pwyllgor drafod y pwnc arall, gan ei fod yn ystyried bod angen seilio polisi'r Cynulliad i gadw Cymru'n Rhydd o gnydau GM ar dystiolaeth wyddonol gadarn. Awgrymodd yr aelodau hefyd y gellid trafod darpariaeth gwasanaethau niwrolegol.

6. Ym mis Mawrth, cyhoeddodd y Pwyllgor Diwylliant ei adroddiad ar yr adolygiad polisi ar gymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff, ac mae Cadeirydd y pwyllgor hwnnw wedi awgrymu y dylai'r pwyllgor sy'n olynu edrych ar yr argymhellion ar fanteision iechyd gwneud ymarfer corff.

7. Mae'r pwyllgor presennol wedi cynnal nifer o adolygiadau polisi, a dylai'r pwyllgor newydd gael gwybod pa mor bwysig yw pwyso a mesur canlyniadau'r adolygiadau hyn. Dyma'r adolygiadau:

- ◆ Comisynydd Plant Cymru (1999);
- ◆ Ymestyn categorïau pobl sydd â hawl i gael profion llygaid am ddim (2000);
- ◆ Adroddiad Ymchwiliad Phillips (BSE) (2001); a
- ◆ Gwasanaethau i Blant sydd ag Anghenion Iechyd Arbennig (2001 i 2002).

8. Cyhoeddwyd adroddiad yr Arglwydd Laming l'r amgylchiadau a oedd yn ymwneud â marwolaeth Victoria Climbié ym mis Ionawr, ond nid yw'r Pwyllgor presennol wedi cael cyfle i ystyried ei argymhellion yng nghyd-destun Cymru. Argymhellir y dylai'r Pwyllgor newydd fodloni ei hun fod camau'n cael eu cymryd i roi ei argymhellion ar waith.

Eitemau Eraill l'w Hystyried cyn Toriad yr Haf

9. **Gofal yn y Cartref.** Ym mis Tachwedd 2002, bu'r Pwyllgor presennol yn trafod y canllawiau a oedd yn cael eu rhoi i'r awdurdodau lleol ynghylch codi tâl am ofal yn y cartref. Nododd y pwyllgor na fyddai'r canllawiau'n cael eu cyflwyno tan ar ôl Mai 3 2003 a chytunodd y dylid rhoi gwybod i'r Pwyllgor newydd am hynt gwaith y gweithgor. Ar 12 Mawrth, bu'r Pwyllgor yn ystyried Rheoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) 2003 drafft a'r safonau cysylltiedig. Mynegodd yr Aelodau nifer o bryderon yr hoffent iddynt gael eu datrys cyn i'r rheoliadau gael eu cwblhau.

10. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror, cytunodd y Pwyllgor y dylid argymhell bod y Pwyllgor sy'n ei olynu yn ystyried y cynigion ar gyfer arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol, yn benodol cyd-arolygiadau, yng ngoleuni'r ymateb l'r broses ymgynghori.

Deddfwriaeth

11. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor newydd ystyried cynnal archwiliad manwl o'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o Fesur Iechyd (Cymru) a Mesur Gofal Cymdeithasol (Oedi wrth Ryddhau Cleifion).

12. Fis Medi diwethaf, bu'r Pwyllgor yn craffu ar fesur Iechyd Meddwl drafft y Llywodraeth. Ni chafodd y Mesur ei gynnwys yn rhaglen ddeddfwriaeth y Llywodraeth a gafodd ei chyhoeddi drwy araith y Frenhines. Pe byddai'r Llywodraeth yn cynnig cyflwyno mesur o'r fath eto argymhellir bod y Pwyllgor newydd yn ystyried yn ofalus a yw'n gydnaws â'r strategaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

13. Ar 12 Mawrth cyflwynwyd y Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) yn Nhŷ'r Cyffredin. Efallai na fydd amseru'r cyhoeddiad yn caniatáu i'r Pwyllgor cyfredol ystyried y Mesur cyn y toriad, ac efallai y dymuna'r Pwyllgor newydd ei archwilio'n fuan er mwyn bwydo ei farn i broses San Steffan trwy swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol.

Cyflwyniad posibl

14. Mae Partneriaeth Rhwydwaith Seico-rywiol Cymru'n rhoi cyngor seico-rywiol mewn partneriaeth â'r GIG, ac efallai y bydd y pwyllgor newydd am wahodd y mudiad i roi cyflwyniad ar ei waith yn trin pobl a chanddynt broblemau rhywiol.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Ebrill 2003